



Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Pŵer Nwy Abergelli

10.1.1 Crynodeb Gweithredol o'r Datganiad Cynllunio - Cyfieithiad Cymraeg

Deddf Cynllunio 2008
Rheoliadau Cynllunio Seilwaith
(Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009

Cyfeirnod PINS:	EN010069
Cyfeirnod y Ddogfen:	10.1.1
Rhif y Rheoleiddiad:	5(2)(q)
Awdur:	Peter Brett Associates LLP

Diwygio	Dyddiad	Disgrifiad
0	Mai 2018	Fersiwn a gyflwynir



1 Crynodeb Gweithredol

1.1 Trosolwg o'r Prosiect a'r Cais

- 1.1.1 Yr Ymgeisydd ar gyfer y Prosiect yw Abergelli Power Limited (APL), cwmni a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr (Rhif Cwmni 08190497) ac is-gwmni sy'n eiddo i Drax Group ccc (a ymgorfforir yng Nghymru a Lloegr â'r rhif 05562053) (Drax), y cwmni daliannol terfynol ar gyfer grŵp cwmnïau Drax. Fe wnaeth Drax gaffael APL oddi wrth Watt Power Limited (Watt Power) yn 2016.
- 1.1.2 Mae Abergelli Power Ltd (APL) yn bwriadu, gweithredu a chynnal gorsaf gynhyrchu pŵer brig Tyrbîn Nwy Cylch Agored (OCGT) (y Gwaith Cynhyrchu Pŵer) a chysylltiadau newydd â'r rhwydweithiau nwy a thrydan ar dir gerllaw Gorsaf Gywasgu Nwy Felindre yn Fferm Abergelli, Felindre, Abertawe SA5 7NN (y Prosiect)
- 1.1.3 Mae'r Prosiect wedi'i leoli ar dir amaethyddol tua 2km i'r gogledd o Gyffordd 46 ar yr M4, tua 3 km i'r gogledd o ddinas Abertawe, tua 1 km i'r de-ddwyrain o Felindre ac 1.4 km i'r gogledd o Langyfelach. Cyfeirir at y tir y byddai'r Prosiect yn cael ei ddatblygu arno, neu a fyddai'n ofynnol er mwyn hwyluso datblygiad y Prosiect, fel Tir y Gorchymyn.
- 1.1.4 Bydd capasiti cynhyrchu'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer yn fwy na 50MWe, felly fe'i ystyrir yn brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) o dan Ddeddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) (PA 2008). O'r herwydd, mae APL yn gwneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol (SoS) ar gyfer Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) o dan adran 31 PA 2008 am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) i gael pwerau i adeiladu, gweithredu a chynnal y Gwaith Cynhyrchu Pŵer (y Cais). Cyfeirir at faint y gwaith y ceisir Caniatâd Datblygu ar ei gyfer (ynghyd â therfynau gwyro perthnasol) fel Terfynau'r Gorchymyn. Yn ogystal, mae APL yn ceisio pwerau prynu gorfodol ynghylch caffael dros Dir y Gorchymyn, er mwyn hwyluso'r gwaith o adeiladu a gweithredu'r Prosiect.
- 1.1.5 Ar wahân, bydd APL yn ceisio caniatâd cynllunio ar gyfer y Cysylltiad Nwy o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (TCPA 1990) a'r Cysylltiad Trydanol o dan naill ai TCPA 1990 neu fel datblygiad a ganiateir o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (GPDO).
- 1.1.6 Mae'r Datganiad Cynllunio yn gweithredu fel y brif ddogfen gyfeirio i gynnig esboniad o'r materion cynllunio sy'n berthnasol i'r Cais. Mae'n rhan o'r gyfres o ddogfennau sy'n cyd-fynd â'r Cais a gyflwynwyd yn unol ag adran 55 PA 2008 a Rheoliad 5 o Reoliadau APFP.

1.2 Fframwaith Deddfwriaethol a Pholisi Perthnasol

- 1.2.1 Mae Adran 104(2) PA 2008 yn darparu, wrth wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau am DCO, fod rhaid i'r SoS (ymhlith eraill) ystyried unrhyw Ddatganiad Polisi Cenedlaethol perthnasol (NPS).
- 1.2.2 Fel y'i nodir yn NPS EN-1, "*mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol hwn, pan yw wedi'i gyfuno â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ynni sy'n benodol i dechnoleg, yn darparu'r brif sail ar gyfer penderfyniadau*" (paragraff 1.1.1) ac y dylai'r SoS "*ddechrau â rhagdybiaeth o blaid rhoi caniatâd i geisiadau am Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol*" ynghylch ynni(paragraff 4.1.2). Yr NPSs perthnasol yng nghyd-destun y Prosiect yw:
- NPS EN-1 – Y Datganiad Polisi Cenedlaethol Trosfwaol ynghylch Ynni
 - NPS EN-2 – Y Datganiad Polisi Cenedlaethol ynghylch Seilwaith Cynhyrchu Trydan Tanwydd Ffossil
 - NPS EN-4 – Y Datganiad Polisi Cenedlaethol ynghylch Seilwaith Cyflenwi Nwy (sy'n berthnasol i asesiad y Cysylltiad Nwy yn unig ac nad yw'n uniongyrchol berthnasol i'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer y mae'r Cais DCO yn perthyn iddo)
 - NPS EN-5 – Y Datganiad Polisi Cenedlaethol ynghylch Seilwaith Rhwydweithiau Trydan (sy'n berthnasol i asesu ac ystyried dewisiadau amgen ar gyfer y Cysylltiad Trydan yn unig ac nad yw'n uniongyrchol berthnasol i'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer sy'n gysylltiedig â'r Cais am DCO)
- 1.2.3 Mae Adran 104 o PA 2008 hefyd yn ei wneud yn ofynnol i'r SoS ystyried unrhyw Adroddiad ynghylch Effaith Leol a materion eraill y mae'r SoS "*yn ystyried eu bod yn bwysig ac yn berthnasol i'r penderfyniad [SoS ']*". Nodir polisïau a thystiolaeth cynllun datblygu lleol perthnasol y DU, Cymru a fabwysiadwyd ac sy'n cael eu datblygu a allai fod o gymorth i wneud penderfyniadau'r SoS o fewn adran 5 y Datganiad Cynllunio hwn.
- 1.2.4 Mae Adran 104 (3) yn darparu bod rhaid i'r SoS benderfynu ar geisiadau yn unol â'r NPS(au) perthnasol, oni bai fod un o nifer o eithriadau rhagnodedig yn gymwys, sy'n cynnwys lle byddai effeithiau andwyol y datblygiad arfaethedig yn gorbwyso ei fuddion (adran 104(7).
- 1.2.5 Mae APL yn cynnal EIA yn unol â Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2009 (Rheoliadau EIA 2009). Felly, ystyrir y prosiect yn ddatblygiad EIA.
- 1.2.6 Yn unol ag adran 4.2 NPS EN-1, mae'r Datganiad Amgylcheddol (ES) (Cyfeirnod Dogfen 6.1) yn ystyried:
- agweddau ar yr amgylchedd sy'n debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol gan y prosiect, gan gynnwys effeithiau cymdeithasol ac

economaidd a sut y byddai unrhyw effeithiau negyddol sylweddol tebygol yn cael eu hosgoi neu eu lliniaru;

- effeithiau sylweddol tebygol, gan gynnwys unrhyw effeithiau gweddilliol sylweddol gan ystyried unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig neu unrhyw effeithiau andwyol a achosir gan y mesurau hynny;
- gwahaniaethau rhwng camau prosiect a mesurau lliniaru ynghylch y camau hynny; a
- gwybodaeth ynghysl sut y byddai effeithiau cynnig yr Ymgeisydd yn cyfuno ac yn rhyngweithio ag effeithiau datblygiad arall (gan gynnwys prosiectau y ceisiwyd caniatâd neu lle rhoddwyd caniatâd, yn ogystal â'r rhai hynny sydd eisoes yn bodoli).

1.2.7 Mae'r DCO drafft (Cyfeirnod Dogfen 3.1), Memorandwm Eglurhaol (Cyfeirnod Dogfen 3.2), Cynlluniau Gwaith (Cyfeirnod Dogfen 2.3), Cynlluniau Tir (Cyfeirnod Dogfen 2.2) a'r Datganiad o Resymau (Cyfeirnod Dogfen 4.1) yn egluro pa elfennau o'r cynigion sydd wedi'u manylu, sy'n dal i gael eu cwblhau a'r paramedrau ar gyfer prif eitemau'r gwaith.

1.3 Yr angen am a Buddion y Prosiect

1.3.1 Mae'r angen brys am gynhyrchu ynni, gan gynnwys gorsafoedd cynhyrchu tanwydd nwy a gweithfeydd nwy brig, wedi'i nodi o fewn NPS EN-1, y Strategaeth Gynhyrchu Nwy (DECC, 2012), y Cynllun Seilwaith Cenedlaethol (Trysorlys EM, 2014) ac Ynni Cymru - Newid Carbon Isel (2012). Yn y Datganiad Ynni Blyneddol (AES) (cyhoeddwyd y fersiwn diweddaraf yn 2014), ailadroddodd yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) (sydd bellach yn SoS ar gyfer BEIS) yr angen i adeiladu seilwaith cynhyrchu pŵer newydd gan gydnabod yr angen i nwy fod yn elfen gryf yn y gymysgedd ynni.

1.3.2 Byddai'r Prosiect yn cyfrannu'n sylweddol at yr angen yn y tymhorau byr a chanol i gynhyrchu llwyth pŵer brig hyblyg, dibynadwy a hwyluso'r newid i economi carbon isel. Byddai'r dechnoleg a ddewiswyd ar gyfer gwaith brig yn helpu i 'gydbwyso' y grid ar adegau o alw brig am drydan ac yn helpu i ategu'r grid ar adegau pan na all ffynonellau adnewyddadwy ysbeidiol gynhyrchu trydan.

1.3.3 Byddai adeiladu a gweithredu'r Prosiect o fudd i'r economi leol. Rhagamcanir y bydd y Prosiect yn darparu effeithiau economaidd-gymdeithasol cadarnhaol ar y farchnad lafur yn y cyfnodau adeiladu a dadgomisiynu trwy greu swyddi lleol a chyfraniad at Werth Ychwanegol Gros (GVA).

1.3.4 Rhagamcanir hefyd, os bydd y gwaith adeiladu, dadgomisiynu neu weithredu'n digwydd ar yr un pryd ag unrhyw brosiectau eraill yn yr ardal, y byddai hyn yn cynnig hwb cadarnhaol i'r economi leol trwy ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth yn gysylltiedig â gwaith adeiladu, cysylltiadau cadwyn gyflenwi a galw am wasanaethau llety, bwyd a diod.

1.4 Asesiad Cynllunio

- 1.4.1 Mae'r canfyddiadau EIA, a gyflwynir yn yr ES (Cyfeirnod Dogfen 6.1) ac y cyfeirir atynt ym mhennod 6 o'r Datganiad Cynllunio hwn yn ategu'r casgliad cyffredinol na fydd unrhyw effeithiau andwyol perthnasol sy'n ddigon arwyddocaol i orbwysu'r pwysau sylweddol y mae'n rhaid eu rhoi i gyfraniad y Prosiect tuag at gyflawni polisiau cenedlaethol ynghylch ynni a'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys diwallu'r angen cenedlaethol i gynhyrchu nwy'n hyblyg.
- 1.4.2 Mae paragraff 3.1.3 NPS EN-1 yn datgan y dylid asesu pob cais am ganiatâd datblygu ar gyfer seilwaith ynni *"ar y sail bod y Llywodraeth wedi arddangos bod angen y mathau hynny o seilwaith a bod graddfa a brys yr angen hwnnw yn union fel y'i disgrifir ar gyfer pob un ohonynt yn y Rhan hon."* Yn unol â hynny, dylai'r SoS *"roi pwys mawr ar y cyfraniad y byddai prosiectau yn ei wneud tuag at ddiwallu'r angen hwn wrth ystyried ceisiadau am ganiatâd datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008"* (paragraff 3.1.4, NPS EN-1).
- 1.4.3 Bydd y Prosiect yn arwain at rai effeithiau andwyol, fel y'u nodir o fewn pennod 16 o'r ES (Cyfeirnod Dogfen 6.1) yn arbennig yn ystod y gwaith adeiladu, mewn perthynas ag: amwynder tirwedd a gweledol o nifer o oygfannau, traffig yn ystod yr oriau brig, colli cynefinoedd ac aflonyddu arnynt, sŵn mewn derbynyddion sensitif, ansawdd dŵr ac adnoddau mwynau. Bydd y Prosiect hefyd yn arwain at rai effeithiau andwyol yn ystod y cyfnod gweithredu, yn arbennig mewn perthynas â sŵn a goleuadau gweithredol o'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer ac amwynder tirwedd a gweledol o nifer o olygfannau. Mae APL wedi ceisio osgoi a lleihau effeithiau andwyol cyn belled ag y bo modd trwy'r broses ddylunio a thrwy fesurau lliniaru a sicrhawyd fel rhan o'r DCO drafft neu mewn rhwymedigaethau caniatâd datblygu.
- 1.4.4 Fodd bynnag, byddai adeiladu'r Prosiect hefyd yn darparu buddion i'r economi leol, â chyflawniad blynyddol rhagamcanol o £7.1 miliwn o Werth Ychwanegol Gros (GVA) (mesur o werth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir) yn ystod y cyfnod adeiladu, y disgwylir iddo ddechrau yn 2020. Rhagamcanir y byddai angen rhwng 25 a 122 o weithwyr adeiladu ar y safle yn ystod y cyfnod adeiladu brig. Byddai cyfnod gweithredol y Prosiect yn darparu hyd at 10 swydd uniongyrchol FTE amcangyfrifedig ac yn darparu oddeutu £0.55m o GVA a £0.5 miliwn o GVA y flwyddyn i'r economi leol a chenedlaethol yn eu trefn. Bydd y Prosiect hefyd yn cyflawni mân effeithiau buddiol lle bydd y tir a weithiwyd yn flaenorol a'r gweithfeydd mwynau hysbys yn cael eu sefydlogi a'u hadfer os bydd angen.
- 1.4.5 Cydnabyddir y byddai'r Prosiect yn arwain at rai effeithiau andwyol yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu. Fodd bynnag, ar sail paragraffau 3.1.3 a 3.1.4 NPS EN-1, a manteision a chyfraniad sylweddol y Prosiect tuag at ddiwallu'r angen brys am seilwaith ynni, yn ogystal â manteision i'r economi leol, ystyrir bod cydbwysedd cyffredinol y ffactorau a gyflwynir yn adran 104 PA 2008 yn pwysu'n gryf o blaid rhoi caniatâd ar gyfer y Prosiect.

- 1.4.6 O gofio gofynion adran 104 PA 2008, ac yn absenoldeb materion digonol i'r gwrthwyneb, mae achos cymhellol er budd y cyhoedd i'r Gorchymyn gael ei wneud o dan y telerau a gynigir.

